Dear Setting Manager/Stakeholder

As of September 2021 the duties placed on the Local Authority in relation to children with Additional Learning Needs will be changing. This change is reflected through a new legislative framework, the Additional Leaning Needs and Educational Tribunal (Wales) Act 2018 and the ALN Code 2021 which provides statutory guidance for all.

The new legislative framework imposes requirements on local authorities and governing bodies of maintained schools and education institutions ("FEIs") in respect of specific functions under the Act. This ranges across 0 to 25 age groups and as such widens the duties imposed on the LA with regards to children with ALN of 0 – 5 years of age. The ALNET Act and ALN Code specifically sets out three overarching objectives which are:

1. a unified legislative framework that supports all children of compulsory school age or below with ALN, and young people with ALN in school or further education;
2. an integrated, collaborative process of assessment, planning and monitoring which facilitates early, timely and effective interventions; and
3. a fair transparent system for providing information and advice, and for resolving concerns and appeals.

- aln-factsheet-how-will-the-act-affect-non-maintained-early-years-education-providers-in-receipt-of-local-authority-funding.pdf (gov.wales)
- aln-factsheet-how-will-the-act-affect-children-young-people-and-parents-carers.pdf (gov.wales)

Within the Inclusion Department we have been considering and planning for this change for some time. Over forthcoming weeks and during the 3-year transition period starting from September 2021 the early years sector will see significant remodeling and development. Extensive support and training will be given by the Inclusion Department to support these changes which in turn will improve services and provision for young children with ALN and their families. We are working in partnership with our colleagues in the Family Information, Childcare and Play Team (Children's Services), with whom you will already be familiar. Many of you already access mandatory training coordinated by Education and Children's Services.

You will be able to continue to access various grants (including sustainability grants) and support and advice regarding regulatory matters. We will continue to work collaboratively to ensure that your individual ALN training needs are identified, and that training is made available to you to address these needs at times which accommodate your services.

**GARETH MORGANS B Ed. M. Sc**
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. SA31 3HB
Director of Education and Children's Services
Department for Education and Children,
Building 2, St. David's Park, Jobs Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire. SA31 3HB

For a number of years settings such as yourselves have accessed additional financial support for children who present with additional needs through the Team Camau Bach Helping Hands referral processes. This mechanism of advice and support has been of great value to the early years sector.

In line with the changes set out above it has been agreed that the current Helping Hands referral processes and access to support in relation to ALN will be transferred to the Inclusion Department as of the 1st April 2021. The system and referral process as it stands will not change immediately it will remain in its current form during the Summer Term 2021. This term will act as a period of development while we consider the processes we require going forward into the new system.

We kindly ask that as of the 1st April any requests for Helping Hands support, invoicing or queries are sent to the following address/point of contact:

Email: Sophie Lewis – ALN Systems Officer - solewis@carmarthenshire.gov.uk

Postal Address: Early Years ALN Lead Officer, ALN Department, Education and Childrens Services, Building 2, Parc Dewi Sant, Job's well Road, Carmarthen, SA31 3HB.

We would also like to take this opportunity to inform you that in line with the new statutory roles we have appointed Mrs Tracey Davies as our Early Years ALN Lead Officer. Going forward into the new system she will be a point of contact and support to settings and stakeholders.

Please do not hesitate to contact the Inclusion Department should you wish to seek further clarification on the referral process over this interim period.

Yours sincerely,

Elinor Williams

ELINOR WILLIAMS (MRS.)
Additional Learning Needs (Process)Manager

Annwyl Reolwr Lleoliad/Rhanddeiliad

Ym mis Medi 2021 bydd y dyletswyddau a osodir ar yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn newid. Adlewyrchir y newid hwn drwy fframwaith deddfwriaethol newydd, sef Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chôd Anghenion Dysgu Ychwanegol 2021 sy'n darparu canllawiau statudol i bawb.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd yn gosod gofynion ar awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg ("Sefydliadau Addysg Bellach") mewn perthynas â swyddogaethau penodol o dan y Ddeddf. Mae hyn yn amrywio ar draws grwpiau oedran 0 i 25 oed ac felly mae'n ehangu'r dyletswyddau a osodir ar yr Awdurdod Lleol o ran plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol rhwng 0 a 5 mlwydd oed. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg Cymru (2018) a'r Côd ADY yn nodi'n benodol dri amcan cyffredinol sef:

1. fframwaith deddfwriaethol unedig sy'n cefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu iau sydd ag ADY a phobl ifanc ag ADY mewn ysgolion neu addysg bellach;
2. proses integredig, gydweithredol o asesu, cynllunio a monitro, sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol; a
3. system deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor, ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau.

- taflen-ffeithiau-ady-sut-bydd-y-ddeddf-yn-effeithio-ar-ddarparwyr-addysg-y-blynyddoedd-cynnar-nas-cynhelir-syn-derbyn-cyllid-oddi-wrth-awdurdodau-lleol.pdf (llyw.cymru)
- taflen-ffeithiau-ady-sut-bydd-y-ddeddf-yn-effeithio-ar-blant-pobl-ifanc-a-rhieni-gofalwyr.pdf (llyw.cymru)

O fewn yr Adran Gynhwysiant rydym wedi bod yn ystyried ac yn cynllunio ar gyfer y newid hwn ers peth amser. Dros yr wythnosau nesaf ac yn ystod y cyfnod pontio o 3 blynedd sy'n dechrau o fis Medi 2021 bydd y sector blynyddoedd cynnar yn ailfodelu ac yn datblygu'n sylweddol. Bydd yr Adran Gynhwysiant yn rhoi cymorth a hyfforddiant helaeth i gefnogi'r newidiadau hyn a fydd yn eu tro yn gwella gwasanaethau a darpariaeth ar gyfer plant ifanc ag ADY a'u teuluoedd. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn y Tîm Gwybodaeth i Deuluoedd, Gofal Plant a Chwarae (Gwasanaethau Plant), y byddwch eisoes yn gyfarwydd â nhw. Mae llawer ohonoch eisoes yn cael hyfforddiant gorfodol a gydlynir gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant.

Byddwch yn gallu parhau i gael mynediad at grantiau amrywiol (gan gynnwys grantiau cynaliadwyedd) a chymorth a chyngor ynghylch materion rheoleiddio. Byddwn yn parhau i gydweithio i sicrhau bod eich anghenion hyfforddi ADY unigol yn cael eu nodi, a bod hyfforddiant ar gael i chi i fynd i'r afael â'r anghenion hyn ar adegau sy'n cyd-fynd â'ch gwasanaethau.

GARETH MORGANS B Ed. M. Sc
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant
Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant,
Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin. SA31 3HB
Director of Education and Children's Services
Department for Education and Children,
Building 2, St. David's Park, Jobs Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire. SA31 3HB

*Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg*
*Carmarthenshire County Council welcomes correspondence in Welsh or English*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Ers nifer o flynyddoedd mae lleoliadau fel eich lleoliad chi wedi cael cymorth ariannol ychwanegol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol sy'n dod i'r amlwg drwy brosesau atgyfeirio Tîm Camau Bach Help Llaw. Mae'r dull hwn o gyngor a chymorth wedi bod o werth mawr i'r sector blynyddoedd cynnar.

Yn unol â'r newidiadau a nodir uchod cytunwyd y bydd y prosesau atgyfeirio Help Llaw presennol a mynediad at gymorth mewn perthynas ag ADY yn cael eu trosglwyddo i'r Adran Gynhwysiant ar 1 Ebrill 2021. Ni fydd y system a'r broses atgyfeirio fel y mae ar hyn o bryd yn newid ar unwaith a bydd yn aros yn ei ffurf bresennol yn ystod Tymor yr Haf 2021. Bydd y tymor hwn yn gyfnod datblygu wrth i ni ystyried y prosesau sydd eu hangen arnom wrth symud ymlaen i'r system newydd.

Gofynnwn yn garedig i unrhyw geisiadau am gymorth Help Llaw, anfonebu neu ymholiadau gael eu hanfon i'r cyfeiriad/pwynt cyswllt canlynol o 1 Ebrill ymlaen:

E-bost: Sophie Lewis – Swyddog Systemau ADY - solewis@sirgar.gov.uk

Cyfeiriad post: Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar, Adran ADY, Gwasanaethau Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB.

Hoffem hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i roi gwybod i chi, yn unol â'r rolau statudol newydd, ein bod wedi penodi Mrs Tracey Davies yn Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar. Wrth symud ymlaen i'r system newydd hi fydd y pwynt cyswllt a chefnogaeth i leoliadau a rhanddeiliaid.

Mae croeso i chi gysylltu â'r Adran Gynhwysiant os hoffech ofyn am eglurhad pellach ar y broses atgyfeirio dros y cyfnod interim hwn.

Yn gywir,

Elinor Williams

ELINOR WILLIAMS (MRS.)
Rheolwr (Proses) Anghenion Dysgu Ychwanegol